



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Eisteddfod yr Urdd - hoffwn longyfarch holl ddisgyblion a staff fu'n cyfrannu at lwyddiant yr ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Sir Ddinbych dros y Sulgwyn. Diolch yn arbennig i chi rieni / gwarcheidwaid am gynorthwyo gyda chludiant ac am eich cefnogaeth.

Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd – cofiwch fod yr ysgol ar gau ar gyfer hyfforddiant i'r staff ar ddydd Gwener, Gorffennaf 1af.

Gŵyl Haf 2022 – am y tro cyntaf rydym am drefnu Gŵyl Haf ar gaeau'r ysgol er mwyn darparu cyfile anffurfiol i chi weld **holl ddisgyblion yr ysgol** yn perfformio eitemau amrywiol. Mi fydd pob plentyn yn canu neu'n llefaru gyda gweddill y dosbarth ac mi fydd cyfile i chi weld rhai o'r eitemau fu'n perfformio yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych. **Mae mynediad i'r digwyddiad cynhwysol hwn yn rhad ac am ddim.**

- **Dyddiad - Nos Fawrth, Mehefin 14eg am 6 o'r gloch (dewis 1af)**, nos Fercher, Mehefin 15fed (2il ddewis os fydd y twydd yn anffafriol) a nos Iau, Mehefin 16eg fel 3ydd dewis.
- **Covid** – yn dilyn asesiad risg covid hoffwn atgoffa pawb na ddylech fynychu'r digwyddiad os oes gennych unrhyw symptomau covid-19. Mi fyddwn yn trefnu ardaloedd i saniteiddio dwylo ar y ffordd i fewn.
- **Picnic** – mi fydd cyfile i chwi ddod â phicnic gyda chi ar gyfer y noson. Mi fydd y Gymdeithas Rhieni yn darparu lluniaeth ysgafn megis te, coffi, hufen iâ a chacennau. Rydym hefyd wedi sicrhau trwydded ar gyfer gwerthu gwin yn ystod y noson.
- **Trefniadau eistedd** – mae gan yr ysgol tua 20 o fyrrdau picnic fydd wedi eu lleoli o gwmpas y cae ac mae nifer o gadeiriau ar gael i chwi eu defnyddio. Mi fyddem yn eich cynghori i ddod â seddau gyda chi neu flancedi ar gyfer eistedd ar y llawr yn y tu blaen. Mi fyddwn wedi trefnu ardaloedd penodol ar gyfer byrddau picnic o gwmpas yr ochr, seddau yn y cefn a lle i flancedi ar gyfer picnic yn y blaen.
- **Mynediad am ddim** - ni fydd unrhyw gost ar gyfer cael mynediad i'r digwyddiad - y peth pwysig yw rhoi cyfile i bob rhiant / gwarcheidwad weld disgyblion yr ysgol yn perfformio. Mi fydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn derbyn cyfraniadau ariannol os y dymunwch ac yn trefnu raffl. Mi fydd unrhyw arian a gesglir yn cael ei ddefnyddio i wella adnoddau addysgol megis llyfrau darllen ac offer chwarae.
- **Mi fydd y gatiau yn agor am 5.20 ac mi fydd yr eitemau cyntaf am 6 o'r gloch.** Mi fyddwn yn dosbarthu rhaglen i bob teulu cyn y digwyddiad, cysylltwch â mi cyn ddydd Iau os oes gennych ddiddordeb mewn noddi'r rhaglen.
- Mi fydd staff y Cyfnod Sylfaen yn cwrdd â disgyblion y **Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2** tu fewn i'r brif fynedfa ac yn eu hebrwng i'w dosbarthiadau at yr athrawon (fel sy'n digwydd pob bore pan fydd disgyblion yn cyrraedd yr ysgol)
- Mi fydd rhieni / gwarcheidwaid yn medru cael mynediad i'r cae drwy'r gât werdd sydd ger y gysgodfan beics.
- Yn dilyn perfformiadau'r Meithrin, Derbyn a Blynnyddoedd 1 a 2 mi fydd angen i rieni / gwarcheidwaid gasglu eu plant o'r ardaloedd casglu penodol ac yna dychwelyd i'r cae i gael picnic a gwyllo gweddill yr eitemau.
- **Ardaloedd casglu'r Meithrin** - iard fach y Meithrin - mi fydd y disgyblion yn cael eu rhyddhau o ddrws cefn y Meithrin i'r iard fach (fel sy'n digwydd ar ddiwedd pob diwrnod ysgol)
- **Ardaloedd casglu'r Derbyn, Blwyddyn 1, 2, 3, 4, 5 a 6** - yn dilyn eu perfformiad dylid eu casglu o'r corlannau penodol (un gorlan ar gyfer pob dosbarth) ar iard yr ysgol ger Llong Ned.
- **Mi fydd angen i ddisgyblion Blynnyddoedd 3, 4, 5 a 6** eistedd ar y cae gyda'u teuluoedd / ffrindiau nes iddynt gael eu galw i eistedd yn yr ardal ymgynnull ger y llwyfan - o bosib mi fydd modd iddynt fwynhau picnic wrth wyliau'r Cyfnod Sylfaen yn perfformio. Ar ôl i ddisgyblion Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 berfformio mi fydd angen eu casglu o'r corlannau (un gorlan ar gyfer pob dosbarth) ger Llong Ned.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu neu addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith

R C Williams, Pennaeth 07/06/2022



Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Urdd Eisteddfod - I would like to congratulate all the pupils and staff who contributed to the school's success at the National Urdd Eisteddfod in Denbighshire over Whitsun. Special thanks to you as parents / guardians for assisting with transport and for your support.

In-service Training Day - remember that the school is closed for staff training on Friday, July 1st.

Summer Festival 2022 - for the first time we want to organize a Summer Festival on the school fields to provide an informal opportunity for you to see all the school pupils performing various items. Each child will sing or recite with the rest of the class and you will have the opportunity to see some of the items performed at the Denbighshire National Urdd Eisteddfod. **Admission to this inclusive event is free.**

- **Date - Tuesday, June 14th at 6 o'clock (1st choice), Wednesday, June 15th (2nd choice if adverse weather conditions) and Thursday, June 16th as 3rd choice.**
- **Covid** - following a covid risk assessment I would like to remind everyone that you should not attend the event if you have any covid-19 symptoms. We will arrange hand sanitation areas on the way in.
- **Picnic** - you will be able to bring a picnic for the evening. The PTA will provide light refreshments such as tea, coffee, ice cream and cakes. We have also obtained a license for the sale of wine during the evening.
- **Seating arrangements** - the school has around 20 picnic tables located around the field and there are a number of chairs available for you to use. I would advise you to bring your own seats or blankets. We will have set up areas for picnic tables around the side, seating at the back and blanket space for a picnic at the front.
- **Admission is free - there is no charge for entry to the event** - the important thing is to give every parent / guardian the opportunity to see school pupils perform. The PTA will receive financial contributions if you wish and will be organizing a raffle. Any money raised will be used to improve educational resources such as reading books and play equipment.
- **The gates will open at 5.20 and the first items will be at 6 o'clock** – a programme will be distributed to every family before the event – if you wish to sponsor the programme then please contact me by Thursday of this week.
- **Foundation Phase staff will meet Nursery, Reception, Year 1 and Year 2 pupils** inside the main entrance and escort them to their classes to meet the teachers (as happens every morning when pupils arrive at school)
- **Parents / guardians** will be able to access the field through the green gate by the bike shelter.
- Following the performances of the Nursery, Reception and Years 1 and 2 parents / guardians will need to collect their children from the designated collection areas and then return to have a picnic and watch the rest of the items.
- **Nursery class collection areas** - Nursery mini yard - pupils will be released from the Nursery back door to the small yard (as happens at the end of each school day)
- **Collection areas for Reception, Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6** - following their performances they should be collected from the designated collection pens (one pen for each class) on the school yard by Llong Ned.
- **Year 3, 4, 5 and 6 pupils** will need to sit on the field with their family / friends until they are called to sit in the assembly area near the stage - they may be able to enjoy a picnic while watching the Foundation Phase performing. After performing Year 3, 4, 5 and 6 pupils will need to be collected from the collection pens (one pen for each class) by Llong Ned.

If you have any worries regarding your child's wellbeing or education, then please contact me immediately.

R C Williams, Headteacher 07/06/2022